**Cofnodion Cyfarfod CCG 29.9.22** Neuadd Cymuned Glantwymyn

19:404: Presennol: Gareth Jones (Cadeirydd) Gareth Owen,William Owen, Aled Griffiths, , Glyn Jones, Gwenfair Davies, Iwan Jones, Elwyn Vaughan, Sandra Evans (Clerc)

19:405: Ymddiheuriadau: Gwen Lloyd, Dafydd Evans, Deryck Lewis, Bedwyr Fychan, Aeron Pughe, Rhodri Wigley Huw Williams,

19:406: Datganiadau o ddiddordeb: Dim

19:407: Cyflwyno a derbyn cofnodion 7.7.22 Nodwyd nad oedd lle o'r enw Eisteddgwm yn bodoli. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan William Owen

19:408: Adroddiad y Clerc:

19:409: Cynllunio (http://pa.powys.gov.uk/onlineapplications/): 22/1525/HH Grid Reference: E:281769 N: 306454 Codi estyniad: Dolfor , Llanwrin, Machynlleth, Powys SY20 8QJ http://pa.powys.gov.uk/onlineapplications/ Cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r cais gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan William Owen

19:410:.Materion Ariannol ac eitemau i'w talu

- Anfonir siec Newydd ar gyfer yr yswiriant ( 518404429 ) £663.31. Gallagher Insurance Company Limited gan fod y llall wedi mynd ar goll.
    - Diweddariad Ariannol
    - Yswiriant (518404429 ) £663.31. Gallagher Insurance Company Limited (Taliad o'r cyfarfod diwethaf – angen cadarnhau statws y siec)
    - Whittingham Riddell 132.00 177174 PAYE - Rheolwr Pensiynau- Taliad bob tair blynedd (Taliad o'r cyfarfod diwethaf)
    - Cyflog y Clerc Gorffennaf £362.80, Awst £363.00
    - Whittingham Riddell (180599) Gwasanaethau Cyflogres Mehefin-Awst 2022 £90.00
    - Gloversure INV-22723 £24.32 Cofnodion yn methu uwch lwytho
    - Cadarnhawyd mai 150.02 oedd y siec i HMRC 3.12.21
- Derbyniwyd y diweddariad ariannol isod a chytunwyd y dylid talu'r uchod gan bawb.

Diweddariad Ariannol CCG a'r Gwynt Medi 2022

| Cyfrif | Rhif y cyfrif | Dyddiad | Balans - datganiad | Sieciau heb eu cyflwyno | Arian a dderbyniwyd | Balans gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CCG current | 80405019 | Medi 2022 | 22,078.68 | 101309 Y Blewyn Glas 10.00<br>101339 Y Blewyn Glas 10.00<br>-----------------------<br>101346 Gallagher insurance 663.31 | 3833.00 Praesept | 21,395.37 |
| CCG savings | 80405035 | Medi 2022 | 17,110.95 | | (Budd) 5.2712.9.22 | |
| Gwynt current | 40052604 | Medi 2022 | -404.99 | 100304 Traed Bêch Twymyn 1,000<br>110306 Tour de Côr 1,000 | | -2,404.99 |
| Gwynt savings | 60849707 | Medi 2022 | 6,093.92 | | (Budd)1.88 12.9.22 | |
| Mynwentydd | 40500941 | Medi 2022 | 1,796.53 | | (Budd)55c 12.9.22 | |

19:411: Adroddiadau'r Cynghorwyr

19:411:1: Y Fforwm Cleifion - Gwenfair Davies.

Cafwyd gwahoddiad gan y feddygfa i aelodau'r fforwm ymweld er mwyn dod i wybod am y newidiadau yn y gwasanaeth ers dechrau'r pandemig. Hefyd daeth rheolwr y feddygfa ac un o'r partneriaid i'r fforwm gan adrodd bod pob swydd meddyg a nyrs wedi eu llenwi a'u bod yn ymateb i anghenion cleifion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaeth brechu rhag y ffliw a Chofid i ddefnyddwyr cofrestredig sydd yn 75 oed a throsodd yn mynd rhagddo. Bydd y feddygfa yn symud i adeilad newydd yr ysbyty ddechrau 2023, tan hynny bydd angen ciwio tu allan i gael meddyginiaeth reolaidd. Os oes anhawster ynglŷn â'r drefn dros dro yma, roedd y rheolwraig yn pwysleisio bod modd ffonio'r feddygfa o'r maes parcio ac y byddent yn dod a'r feddyginiaeth allan.

Deellir y bydd datblygiad newydd Ysbyty Bro Ddyfi wedi ei orffen ddechrau 2023.

Adroddodd Peter Skitt, Cyfarwyddwr Sirol Ceredigion i Fwrdd Iechyd Hywel Dda mae'r sialens fwyaf i Fronglais ar hyn o bryd i'w cael digon o staff. Mae dros ddeugain y cant o beth ddylai fod. Ar nodyn gobeithiol mae coleg nyrsio wedi ei sefydlu gyda myfyrwyr eisoes wedi dechrau, gyda chanran uchel yn byw yng nghanolbarth Cymru. Mae'n edrych yn addawol y bydd yr Uned Chemotherapi newydd yn dechrau cael ei adeiladu o fewn blwyddyn, diolch i haelioni a brwdfrydedd pobl yr ardal sydd wedi codi'r arian. Heblaw am yr adran wroleg sydd yn brin o staff arbenigol, mae pob adran arall yn gweithio'n dda. Bydd sganer CT newydd yn dod mewn 8 mis a fydd o fudd yn arbennig i arbenigwyr 'Colorectal'.

Cafodd Bronglais ganmoliaeth gan Brif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru am eu gwaith yn ystod y Pandemeig gan eu bod wedi llwyddo i barhau i wneud llawdriniaethau arferol (elective) a dilyn gweithdrefn gwarchod Cofid. Dywedodd bod staff a'r cyhoedd yn yr ardal wedi helpu i gadw pethau dan reolaeth.

Cafwyd adroddiad gan Sioned Jones Pritchard sydd yn gysylltydd cymunedol i PAVO yn Nyffryn Dyfi. Mae'n derbyn cyfeiriadau gan weithwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a hefyd pobl yn hunan gyfeirio. Bydd yn gweithio gyda phobl i gael mynediad at wasanaethau'r trydydd sector i'w cefnogi. Ym mis Awst yn unig derbyniodd 323 o gyfeiriadau gan ymateb iddynt mewn llai na tri diwrnod. Mae hyn yn dangos bod y gwasanaeth yma'n allweddol i'r gymuned.

19:411:2: SARPA - William Owen Mae tri thrên newydd erbyn hyn. .Bydd y bont ger y Berm oar gau tan y Nadolig bron. Mae'r pontydd Newydd rhwng Machynlleth ac Aberystwyth wedi cau o ganlyniad i lwythi coed trwm.

19:411:3: EcoDyfi- Iwan Jones Mae dau feic trydan wedi cael eu prynu ac mae angen lle i'w cadw.

9:411:4: Cyngor Sir Powys - Elwyn Vaughan

- Mae'r cynlluniau wedi newid ar gyfer safle Ysgol Hyddgen. Maent wedi cael eu cyfyngu achos y llifogydd a'r 'flood plane'Fydd dim Canolfan Hamdden newydd erbyn hyn. Bydd y cynlluniau'n mynd o flaen y Cabinet ar y 11fed o Hydref.
- Mae pryderon am gau Ambiwlans Awyr y Trallwng a'i symud i Ruddlan yn parhau. Nodwyd nad yw'r data a gasglwyd yn ddilys achos nad yw natur amrywiol Cymru o ran daearyddiaeth wedi cael ei hystyried ac nid oes cymharu tebyg â'i thebyg. Mynegwyd ofnau y byddai'r cynlluniau newydd yn canolbwyntio ar anghenion trefol yn unig. Nodwyd nad oes unrhyw wasanaeth ar gael yn y cefn gwlad gan y byddai'r ambiwlansys yn rhy bell i ffwrdd ac wedi ymroi i ateb galwadau eraill cyfagos. Cynigiwyd y dylid cefnogi'r ymgyrch i gadw'r Ambiwlans Awyr yn y Trallwng ac fe'i heiliwyd gan bawb. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Iechyd Cymunedol Powys i gynnal ymgynghoriad llawn i'r mater. Cysylltir ag aelodau o' Senedd i fynegi pryderon. Cynigiwyd hyn gan Iwan Jones ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths a phawb yn unfrydol. Diolchodd Aled Griffiths i Elwyn Vaughan am amlygu'r ymgyrch.

19:412: Wal eglwys Llanwrin – nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi cael eu gwneud at gyflwyno cais am grant gan GADW tuag at gostau trwsio'r wal. Nid oedd modd cael amcanbris terfynol ar gyfer y wal yn unig (heb

ffens) mewn pryd. Penderfynwyd chwilio am ffyrdd amgen i ddatrys problem y wal. Bydd y cadeirydd yn gwneud ymholiadau. Cysylltir â'r Parch. Miriam Beecroft i ofyn i'r eglwys gefnogi'r achos. Bydd y Cadeirydd yn parhau gyda thrafodaethau am yr ywen.

19:413: Nodwyd bod cais wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer dau diffibrilwyr am ddim i Lanwrin a Darowen.

19:414: Meinciau Diolchwyd y Deryck Lewis am ddod o hyd i gyflenwyr meinciau. Penderfynwyd y byddai Gareth Owen a Deyck Lewis yn gwneud arolwg o gyflwr y meinciau yn ardal CCG

19:415: Gohebiaeth Derbyniwyd galwad ffôn gan y feddygfa i gydnabod derbyn y cwynion a gododd y Cyngor.

19:416: Materion Priffyrdd a Phontydd

19:417: Unrhyw Fater Arall

- Nodwyd bod angen halen ar bob ardal. Cafwyd y syniad o wneud cais am gritter cymunedol i Ddyfodol Dyfi.
- Mae'r graig ger Llys Ffrydlan dal yn broblem

19:418: Unrhyw fater Arall.

19:418:1: Ciosg Cemaes. Cafwyd cais ar ran ysgoldy'r ysgol am gael defnyddio'r hen giosg ar gyfer cyfnewid llyfrau cymunedol. Bydd Aled Griffiths yn trafod y mater gydag Isobel i benderfynu'r ffordd ymlaen.

19:418:2: Nodwyd bod angen tocio coed ym mynwent Darowen.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 27.10.22

---

Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 28.7.22

- Cais gan Gylch Meithrin Glantwymyn am gyfraniad at ddillad glaw ar gyfer defnyddio'r ardal tu allan ym mhob tywydd. Cost y dillad yw £260 Cynigiwyd y dylid cyfrannu £260.00 gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths
- Cais gan Branwen Siôn, Chwedrws – ar gyfer gyfraniad at astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd. Cytunwyd gan bawb y dylid gwneud cyfraniad ac y dylid codi'r swm arferol yn unol â chostau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35